# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penygroes

**Neuadd Goffa Penygroes**
**Waterloo Road**
**Rhydaman**
**SA14 7PG**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Penygroes

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Penygroes |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal ddydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Anne O'Brien-Stafford a Margot Roberts |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Jenny Davies |
| Nifer y lleoedd | 17 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 16 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 14 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener/8.45yb tan 2.30yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 15 Mai 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 2 Chwefror 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 23/10/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Fe wnaethom hysbysu'r darparwr am Feysydd i'w Gwella lle nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Ni chyflwynwyd rhybudd, ond nodwyd hwn yn faes i'w ella, a rhaid i'r Person Cofrestredig / Unigolyn Cyfrifol fynd i'r afael â hyn. Bydd gwybodaeth am yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei chynnwys mewn Crynodeb Camau Gwella a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn unig.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn ennyn diddordeb plant yn brydlon yn eu dysgu

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i blant ddatrys problemau yn annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn gyson. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud yn hyderus o amgylch yr ardaloedd dysgu tu mewn a thu allan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn helpu eu hunain i adnoddau o fewn yr ardaloedd chwarae yn effeithiol. Er enghraifft, defnyddio colandrau er mwyn edafu sbageti a gwellt trwy dyllau mân. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau arsylwi cyn iddynt ddewis eu gweithgareddau, fel defnyddio adnoddau crefft i addurno pwmpen. Maent yn gwybod bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried yn llawn. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn cael dewis eu ffrwyth ac yn gwybod bod ganddynt y rhyddid i ddewis pryd i fynd i'r tŷ bach.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn setlo'n gyflym ac maent yn hapus ac yn gartrefol yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr ac maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal yr ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos egni a mwynhad wrth weld ymarferwyr ac ymuno â'u ffrindiau. Er enghraifft, wrth i grŵp o blant ddod at ei gilydd yn yr ardal chwarae rôl i gydweithio'n brysur o flaen drych i wisgo gemwaith a sgwrsio am ddillad. O ganlyniad, maent yn ymdopi'n dda wrth symud o un weithgaredd i'r nesaf, fel gorffen gweithgaredd corfforol i ddechrau gweithgaredd brwsio dannedd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cymdeithasol da ac yn rhannu yn ddiffwdan ag eraill wrth chwarae. Maent yn parchu teimladau a diddordebau eraill ac yn dysgu i gymryd tro. Er enghraifft aros i ddefnyddio'r ffynnon ddŵr yn yr awyr agored. Maent yn barod i gefnogi ei gilydd, er enghraifft trwy gydweithio i greu tŷ draenog wrth ddefnyddio boncyffion, conau a chardfwrdd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasau agos a chynnes gyda'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr. Er enghraifft, roedd grŵp o blant yn awyddus i baratoi bwyd i'r ymwelwyr, ac yn mwynhau chwarae yn y gegin fach, enwi llysiau a chynnig platiau o datws go iawn. Aeth plentyn arall draw i'r ardal ymchwilio i gasglu perlysiau go iawn i ychwanegu i'r bwyd, a chael mwynhad mawr wrth weini'r platiau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn egnïol a brwdfrydig yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn canu, rhifo a defnyddio sgiliau echddygol manwl wrth arbrofi ag adnoddau naturiol fel dail a rhisgl. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol, llythrennedd, rhifedd a'u creadigrwydd yn effeithiol. Yn ogystal, maent yn mwynhau canolbwyntio ac arbrofi am gyfnodau wrth lenwi sosbenni'r gegin fwd, neu wrth fwrdd wedi ei lenwi â mwswgl, pridd a dinosoriaid.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo a bwyta eu byrbryd. Maent yn dangos balchder a mwynhad wrth gyflawni tasgau fel cwblhau gweithgareddau, tacluso, brwsio dannedd a sychu trwyn. Mae'r plant hefyd yn mwynhau hunan-gofrestru wrth osod eu henwau ar y goeden cwpanau. O ganlyniad, maent yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwarae gyda'i gilydd yn frwdfrydig ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn cymhwyso ystod eang o fedrau yn effeithiol, sy'n arwain yn llwyddiannus at wella eu deilliannau a'u medrau.

Mae llawer o blant yn ymdrechu i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol, trwy ddilyn anogaeth ac arweiniad yr ymarferwyr. Yn ogystal, maent yn mwynhau ymuno â rhigymau a hwiangerddi cyfarwydd a'u cyd-ganu yn ystod eu sesiynau cylch ac wrth brwsio'u dannedd. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n ofalus ac yn gweithredu arnynt yn gydwybodol, er enghraifft, wrth lenwi pwmpenni â hadau a chnau castan. Maent yn siarad yn naturiol â'i gilydd wrth ymgymryd â chyfnodau o chwarae creadigol estynedig. Maent yn ymateb i drafodaethau yn effeithiol ac yn rhannu syniadau i gwblhau tasgau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cydweithio a chloncian yn fyrlymus wrth drin gwallt ei gilydd yn yr ardal gartref.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn trafod llyfrau'n ddeallus. Maent yn ymgysylltu â storïau yn frwd ac yn ymateb yn ffraeth i'w cyfoedion wrth fwynhau lluniau a digwyddiadau stori. Maent yn dangos diddordeb wrth ddisgrifio cymeriadau gwahanol ac yn ystyried canlyniadau gweithredoedd yn feddylgar, er enghraifft wrth ymateb yn ddeallus i helyntion doli a'i ffrindiau.

Yn ystod eu chwarae, mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud marciau’n bwrpasol gyda chyfryngau gwahanol fel sialc, paent a chreonau. Maent yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwneud marciau wrth ddisgrifio pry copyn a chofnodi rhifau i gyfatebu â niferoedd gwahanol o gerrig mân. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac yn esbonio pwrpas eu cofnodion yn ddeallus.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau priodol. Mae ganddynt fedrau rhifedd cadarn ac maent yn mwynhau arbrofi gydag ystod eang o offer mathemategol. Maent yn cyfrif yn hyderus wrth ddidoli dail a moch coed, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o briodweddau siapiau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol llwyddiannus trwy yrru beiciau yn y neuadd ac ysgwyd parasiwt yn frwdfrydig. Maent yn mwynhau cydweithio i addasu eu syniadau, er enghraifft, trwy ddechrau datblygu eu medrau rygbi. Mae’r agweddau cadarnhaol hyn yn effeithio’n dda ar eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau digidol effeithiol. Maent yn manteisio ar y cyfleoedd pwrpasol sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn rheoli cyfeiriad robotau electronig ac yn dilyn rhaglenni iaith a rhifedd ar lechi electronig. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo’n dda a chymhwyso eu medrau digidol yn fwriadus.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae’r ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau’n dda ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau, digwyddiadau ac alergeddau. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol ac mae’r gweithdrefnau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn diheintio arwynebau yn ofalus cyn byrbrydau, ac yn gwisgo menig wrth baratoi bwydydd iachus. Maent yn sicrhau bod gan y plant mynediad parhaus i ddiod fel dŵr a llaeth. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn am brosesau diogelu ac yn sicrhau bod trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr am anghenion unigol plant ac yn integreiddio, yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cadw system cofrestru plant cywir a threfnus ac yn sicrhau bod ganddynt gofnodion caniatâd yn eu lle.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl a chynnes gyda’r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig ac yn modeli rhyngweithiadau positif a naturiol wrth esbonio a chefnogi’r plant i barchu ei gilydd. Mae ymarferwyr yn annog plant i sylweddoli bod mwy o blant nag adnoddau a bod angen aros a chymryd eu tro. Maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd rhannu mewn ffordd glir a theg yn ystod chwarae rydd. Mae ymarferwyr yn arsylwi, gwrando ac egluro mewn modd gofalgar. Er enghraifft, maent yn atgoffa plant beth sydd yn digwydd nesaf, yn annog plant i gydweithio wrth dacluso a chefnogi plant gydag arferion fel sychu trwyn. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn gyson, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu dealltwriaeth a’u hunan hyder.

Mae'r ymarferwyr yn adeiladu perthynas dda iawn gyda'r plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Mae gan ymarferwyr weithdrefnau a rhwydweithiau pwrpasol yn eu lle ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn darparu naws ac amgylchedd sydd yn meithrin gofal ac yn dangos parch ar bob adeg. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn gan gynnwys eu diddordebau, eu hyder a'u gofynion dietegol penodol. Mae ymarferwyr yn annog annibyniaeth y plant mewn modd caredig a sensitif. Maent yn adeiladu ar fedrau unigol y plant i feithrin eu hunan barch. Er enghraifft, maent yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i blant helpu yn ystod amser byrbryd, casglu adnoddau wrth baratoi gweithgareddau a chwblhau tasgau tŷ bach yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad iaith y plant yn gyson trwy ddefnyddio Cymraeg clir a chywir. Maent yn atgyfnerthu geirfa sydd yn cefnogi eu dysgu a'u dealltwriaeth, er enghraifft trwy ddefnyddio geirfa'r hydref ac iaith fathemategol wrth i blant ymgymryd mewn profiadau dysgu yn y twba pwmpenni.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn darparu ystod dda o weithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae diddorol. Maent yn annog y plant i fentro ac arbrofi, sy'n cael effaith dda ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Er enghraifft, maent yn cefnogi'r plant i ymchwilio gyda rhawiau yn y pridd ac maent yn eu herio i greu patrymau lliwgar gyda sialc.

Mae gan ymarferwyr agweddau cadarnhaol, sy'n ysgogi dysgu'r plant yn effeithiol. Mae eu dulliau addysgu yn gadarn ar y cyfan. Er bod cyflwyniadau yn hir ar adegau, maent yn annog y plant i gydweithredu'n frwdfrydig a datblygu ystod eang o fedrau'n effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn gyson yn ystod gweithgareddau ac maent yn cymell y plant i arbrofi wrth chwarae. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r plant ar sut i lwyddo yn ystod eu tasgau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn trafod y ffordd gyflymaf i symud ceir o do garej i'r llawr. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i blant ddatrys problemau yn gwbl annibynnol, heb oruchwyliaeth oedolyn.

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnwys cydweithio synhwyrol ymysg ei gilydd a pharodrwydd i ddilyn diddordebau ac awgrymiadau'r plant. Maent yn cyd-gynllunio'n effeithiol i ymestyn dysgu'r plant trwy amrywiaeth o brofiadau ymarferol, fel gludo gyda dail a mes. Maent yn arsylwi ar blant ac yn trafod eu cynnydd yn fwriadus er mwyn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol o gyflawniadau'r plant i'w rhieni a'u gofalwyr ar gyfryngau cymdeithasol, trwy thrafodaethau ac adborth llafar ac mewn cofnodion llyfrynnau cynnydd.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd difyr i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymwyseddau digidol y plant. Maent yn ymestyn dealltwriaeth y plant yn ystod y sesiynau trwy eu holi'n effeithiol a'u cymell i esbonio eu gweithredoedd yn ofalus. Maent yn gwneud hyn wrth iddynt drafod cynhwysion yn y gegin fwd, rhofio cerrig mân i lanw cylch, ac wrth iddynt ddefnyddio apiau yn hyderus ar lechi electronig.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gydbwyso wrth droedio ar draws mainc a thrafod peli yn ddestlus wrth chwarae rygbi. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol diddorol, fel creu rhythmau gwahanol gydag offer taro a chwarae rôl wrth osod doliau i gysgu mewn cawell.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn dda. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n effeithlon trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hanes Santes Dwynwen. Mae ymarferwyr yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol ac yn astudio gwyliau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Yn ogystal, maent hefyd yn codi ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn bwrpasol ac yn edrych ar nodweddion a chyfleusterau'r pentref a chanu hwiangerddi traddodiadol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd o safon uchel sydd yn ddiogel a glân ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau nad oes modd i ymwelwyr gael mynediad heb ganiatâd ymarferwyr ac mae pawb yn mewngofnodi'n brydlon. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod o hysbysebion a phosteri defnyddiol a phwrpasol o gwmpas cyntedd y lleoliad a phrif ddrws y lleoliad. Mae rhain yn cefnogi gweithdrefnau clir y lleoliad, fel siart llif ynglŷn â diogelu plant. Mae arweinwyr yn cadw cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Maent yn cadw cofnodion plant ac ymarferwyr yn gyfrinachol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr offer i ddiogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu yn rheolaidd, gan gynnwys offer tân a'r blychau cymorth cyntaf. Maent yn cynnal asesiadau risg effeithiol, cyfredol a phwrpasol ar gyfer y lleoliad mewnol ynghyd â'r ardal chwarae caeedig tu allan, ac maent yn cael eu hadolygu yn gywrain. Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi nodi risg rhwng yr adeilad a giât yr ardal chwarae allanol caeedig, gan osod offer dros dro ac arferion goruchwylio yn eu lle. Fodd bynnag, mae'r ardal agored tu hwnt i'r drws tân allanol yn parhau i greu peryg i blant. O ganlyniad, mae hwn yn faes i'w wella ac mae disgwyl i arweinwyr gymryd camau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn heddychol a chroesawgar. Mae'r amgylchedd tu mewn yn ysgogol ac mae digon o le ar gyfer y nifer o blant sydd yn mynychu'n ddyddiol. Mae arweinwyr yn darparu ardal tŷ bach addas ynghyd â chyfleusterau pwrpasol i olchi dwylo a newid cewynnau, sy'n cynnig preifatrwydd a chyfleoedd i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Maent yn defnyddio cegin sydd yn addas i baratoi byrbrydau, ac maent yn defnyddio neuadd fawr ar gyfer gweithgareddau corfforol yn achlysurol. Mae gan y lleoliad ardal tu allan sydd yn sicrhau heriau a chyfleoedd pwrpasol i blant arbrofi a datblygu chwilfrydedd. Mae'r gofod hwn yn gaeedig ac yn cynnig ardaloedd chwarae pwrpasol sy'n cynnwys ardal ddychmygol, corneli creadigol, byrddau cerrig, coed mân a chegin fwd. Maent yn sicrhau cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch plant a'u cefnogi i fentro. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i lenwi ystod o gynwysyddion i ddeall llif y strwythur ddŵr.

Mae arweinwyr yn darparu amrywiaeth safonol o adnoddau pwrpasol sydd wedi eu gosod ar lefelau isel tu mewn a thu allan. O ganlyniad, mae gan blant fynediad i gelfi, teganau a chyfarpar eang ar gyfer eu datblygiad a'u hoedran. Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd da i ddewis yn annibynnol a datblygu sgiliau pellach. Er enghraifft,

maent yn defnyddio adnoddau darnau rhydd ac offer technegol fel camerâu digidol a robotiaid i gyfoethogi'u dysgu. Mae arweinwyr yn cadw a chynnal adnoddau yn dda ac yn lân. Maent yn sicrhau bod gan blant mynediad llawn i ardaloedd o safon da tra eu bod yn asesu risg ac addasrwydd adnoddau yn barhaol. Er enghraifft, ardaloedd adeiladu, rhifedd, byd bach, ymchwilio, cerddoriaeth, marcio a chwarae rôl. Mae arweinwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda. Mae eu defnydd o ddrychau isel yn yr ardaloedd chwarae yn hybu hunaniaeth y plant. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfleoedd cyfartal gan gynnwys cynnig, ystod dda o adnoddau fel map y byd, llyfrau, doliau a phosteri aml-ieithoedd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr strategaethau arwain effeithiol ar gyfer y lleoliad ac mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae ganddynt weledigaeth glir sy'n hyrwyddo cydweithio llwyddiannus ymysg yr ymarferwyr. Maent yn cymell y plant i ymdrechu'n dda yn ystod eu gweithgareddau ac yn cynnig anogaeth ddeallus. Mae hyn yn arwain at addysgu cadarn a gofal bugeiliol tyner.

Mae adnabyddiaeth arweinwyr o gryfderau'r ddarpariaeth a'r materion i'w gwella yn ddibynadwy ac maent yn gwerthuso eu gwaith yn effeithiol. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr, sy'n eu galluogi i adnabod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant. Maent yn gwerthuso cynnydd yn fwriadus, er enghraifft, wrth ddatblygu ardal allanol lwyddiannus. O ganlyniad i'r gweithdrefnau trylwyr hyn, mae gan arweinwyr afael gadarn ar sut i ddatblygu a chynnal darpariaeth weithredol.

Mae arweinwyr yn cefnogi'r ymarferwyr yn synhwyrol i gynnal safonau trwy osod disgwyliadau pendant ar gyfer eu gwaith a'u hymddygiad. Maent yn gweithredu systemau recriwtio diogel yn effeithiol ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr cymwys yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Mae arweinwyr yn cefnogi ymarferwyr i fynychu hyfforddiant defnyddiol i wella'u hymarfer. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn gweithredu'n gydwybodol ar awgrymiadau arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae gan arweinwyr drefniadau effeithlon i werthuso perfformiad ymarferwyr ac maent yn goruchwylio a gwerthuso eu gwaith yn rheolaidd. Maent yn rheoli cymarebau staffio yn addas ar bob adeg ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau derbyn a gadael yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ystyried adborth plant, rhieni a staff, sy'n rhan o fywyd a gwaith y lleoliad, yn briodol. Maent yn cynnal trafodaethau defnyddiol ac yn ystyried awgrymiadau rhanddeiliaid yn llawn wrth ddatblygu'r ddarpariaeth a gwella profiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando'n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu'r arferion cynllunio ac asesu, er mwyn dilyn diddordebau a syniadau'r plant yn well. Yn ogystal, maent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i ddarparu gwybodaeth gyfredol am brofiadau a chynnydd y plant i'w rhieni a'u gofalwyr.

Mae arweinwyr wedi creu perthynas dda gyda'r ysgol leol i baratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn fwriadus. Yn ogystal, mae ganddynt bartneriaethau lleol

cadarn yn eu lle i godi gwell ymwybyddiaeth ymysg y plant o'u hardal leol. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliad gan ffermwr â thractor a theithiau cerdded i siopau a chaffis y pentref.

Mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn effeithiol. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n ddoeth ac yn cyllido cyfarpar defnyddiol, yn unol â thargedau'r lleoliad. Mae cynllunio gofalus yr arweinwyr yn gwella profiadau dysgu a chwarae'r plant yn ystyrlon trwy ddarparu adnoddau gwerthfawr fel cegin fwd a chyfarpar technolegol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/12/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/12/2023

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | The provider must ensure that all parts of the relevant premises to which relevant children have access are so far as reasonably practicable free from hazards to their safety. | Newydd |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  22/12/2023

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 22 Rhagfyr 2023

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/12/2023